POLISI CRONFEYDD WRTH GEFN

Adolygwyd	Cymeradwywyd	Mabwysiadwyd
16/09/2026	16/09/2026 Cyf. Cofnod: 106/2627	16/09/2026

Statws	Wedi'i adolygu, ei gymeradwyo a'i fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ar 16/09/2026
Fersiwn	1.0
Paratowyd	24 Awst 2026 (NT)
Perchennog y Polisi	Y Cyngor Llawn
Arweinydd Gweithredol	Y Clerc / Swyddog Ariannol Cyfrifol (SAC)
Adolygiad Nesaf	Bob tair blynedd, neu'n gynharach os bydd newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth, canllawiau, Rheoliadau Ariannol neu sefyllfa ariannol y Cyngor

1. Pwrpas

Mae cronfeydd wrth gefn yn helpu i sicrhau parhad gwasanaethau, rheoli gwahaniaethau amseru mewn incwm a gwariant, a darparu cyllid ar gyfer ymrwymiadau wedi'u cynllunio neu sefyllfaoedd eithriadol. Nid ydynt yn cymryd lle cyllidebu cynaliadwy, ac ni ddylid cronni arian heb bwrpas clir na defnyddio cronfeydd wrth gefn dro ar ôl tro i guddio diffyg yn y gyllideb.

2. Mathau o Gronfeydd Wrth Gefn

Cronfa Wrth Gefn	Diben
Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol	Balans gweithredol ar gyfer digwyddiadau annisgwyl, llif arian a risgiau nad ydynt wedi'u cynnwys mewn cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi neu yswiriant.
Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi	Arian sydd wedi'i neilltuo drwy benderfyniad y Cyngor ar gyfer prosiect penodol, rhwymedigaeth, amnewid ased, amod grant neu risg hysbys.
Derbyniad Cyfalaf / Balans Cyfyngedig	Arian y mae ei ddefnydd wedi'i gyfyngu gan y gyfraith, grant neu amod arall ac sy'n rhaid ei nodi ar wahân.

3. Lefel y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol

Fel arfer, bydd y Cyngor yn cynnal Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol sydd rhwng 25% a 100% o wariant refeniw net blynyddol, oni bai bod y Cyngor yn penderfynu'n ffurfiol fel arall.

Bydd digonolrwydd y gronfa yn cael ei adolygu'n flynyddol gan ystyried:

- Anghenion llif arian.
- Sicrwydd incwm.
- Risgiau sy'n ymwneud ag asedau a gwasanaethau.

- Gormodeddau yswiriant.
- Ymrwymiadau sydd heb eu cwblhau.
- Y gofrestr risg gorfforaethol.

Er y gall meincnod y sector o tua thri i ddeuddeg mis o wariant refeniw net helpu wrth wneud yr asesiad, y Cyngor fydd yn penderfynu ac yn cofnodi lefel briodol o gronfeydd wrth gefn yn ôl ei amgylchiadau ei hun.

4. Cronfeydd wrth Gefn wedi'u Clustnodi

4.1 Bydd cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn fel rhan o'r broses o osod y gyllideb a'u monitro drwy adroddiadau monitro cyllideb rheolaidd y Cyngor.

4.2 Bydd gan bob cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ddiben clir, swm neu gynllun ariannu wedi'i gymeradwyo, ac unigolyn neu gorff penodol sy'n gyfrifol am ei hadolygu. Bydd y cronfeydd hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn angenrheidiol ac yn briodol.

4.3 Dylid darparu ar gyfer risgiau ac ymrwymiadau unwaith yn unig ac ni ddylid eu cynnwys fwy nag unwaith yn y gyllideb, y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol a'r Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi.

4.4 Bydd llog yn cael ei drin yn unol â'r trefniadau cyllidebol neu gyfrifyddu a gymeradwywyd, oni bai bod y Cyngor wedi penderfynu fel arall.

4.5 Pan fydd diben cronfa wrth gefn wedi dod i ben, bydd unrhyw falans sy'n weddill yn cael ei ddychwelyd i'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol neu'n cael ei ailddyrannu gan y Cyngor Llawn.

5. Cymeradwyo ac Adrodd

Mae angen awdurdod o dan Rheoliadau Ariannol y Cyngor a'r gyllideb gymeradwy ar gyfer:

- Creu cronfa wrth gefn newydd.
- Trosglwyddo arian rhwng cronfeydd wrth gefn.
- Newid diben cronfa wrth gefn.
- Defnyddio arian o gronfa wrth gefn.

Bydd adroddiadau'n dangos:

- Y balans agoriadol.
- Adnoddau ychwanegol a drosglwyddwyd i'r gronfa.
- Defnydd a wnaed o'r gronfa.
- Y balans terfynol.
- Diben y gronfa.
- Rhagolygon ar gyfer y dyfodol.

Bydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu hadolygu wrth osod y gyllideb, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac unrhyw bryd y bydd prosiect neu risg sylweddol yn newid.

6. Defnydd Eithriadol

Os bydd balans y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol yn disgyn islaw'r lefel darged a gymeradwywyd, rhaid cael cynllun adfer sy'n nodi:

- Sut y bydd y balans yn cael ei ailadeiladu.
- Y cyfnod amser ar gyfer hynny.

- Yr effaith bosibl ar y praesept yn y blynyddoedd dilynol.

Rhaid i unrhyw wariant brys ddilyn trefniadau dirprwyedig a threfniadau adrodd cyfreithlon y Cyngor.

7. Ffynonellau a Dogfennau Cysylltiedig

Dylid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â pholisïau eraill y Cyngor sydd wedi'u mabwysiadu ac â'r fersiynau diweddaraf o'r ffynonellau isod. Os bydd deddfwriaeth neu ganllawiau statudol yn newid, y gofynion cyfredol fydd yn drech.

7.1 Canllaw Ymarferwyr Un Llais Cymru:
https://www.onevoicewales.wales/publications/toolkits-guides-for-local-councils/

7.2 Llywodraethu Cynghorau Lleol Archwilio Cymru:
https://www.audit.wales/our-work/local-government-finance

8. Cymeradwyo ac Adolygu

Daw'r ddogfen hon i rym pan gaiff ei mabwysiadu drwy benderfyniad y Cyngor Llawn. Bydd y Clerc yn cofnodi'r dyddiad mabwysiadu a chyfeirnod y cofnod, yn trefnu ei chyhoeddi lle bo'n briodol, yn rhoi gwybod i'r cynghorwyr, staff a rhanddeiliaid perthnasol, ac yn rhoi'r adolygiad nesaf ar gofrestr polisïau'r Cyngor.